# Cyngor Cymuned Llanrug

## Polisi Diogelwch Cofebion

**Cyfrifoldeb**: Pwyllgor y Fynwent

**Cylch Adolygu:** Yn flynyddol, neu yng nghyfarfod o'r pwyllgor yn union ar ôl unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain yn ymwneud â chofeb. Dylid darllen y polisi ar y cyd gyda rheolau mynwent y cyngor.

| Dyddiad Mabwysiadu | Rhif Penderfyniad |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

# CYNNWYS


**Tabl Cynnwys** **Rhif Tudalen**

**CYFLWYNIAD**

**PARATOI CYN ARCHWILIO**

Datganiad Dull
Archwilio
Gweithwyr
Cofnodion

**PROSES ARCHWILIO**

Amlder Archwilio
Proses Archwilio:
Asesiad Risg
Cyfathrebu a Hysbysiad o Fwriad i gynnal Gwiriadau Gweledol
Prawf Corfforol
Dosbarthu Camau Gweithredu Cofebion ar gyfer Cofebion wedi'u Dosbarthu

**PROSES ÔL ARCHWILIO**

Gwaith Atgyweirio

**ATODIADAU**

1. Taflen Gofnod Archwilio Cofeb
2. Cytundeb Polisi
3. Hysbysiad Cyhoeddus
4. Hysbysiad Diogelwch (cofeb anniogel)
5. Llythyr Categori 2
6. Llythyr Categori 3
7. Cwestiynau Cyffredin

# CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch unrhyw un sy'n ymweld neu'n gweithio yn ei fynwent. Bydd yn sicrhau bod holl fesurau ymarferol rhesymol yn cael eu cymryd i ddarparu hyn.

Mae gweithdrefn archwilio diogelwch cofebion y Cyngor wedi'i seilio ar y canllaw a ddatblygwyd gan y Grŵp Cynghori ar Gladdedigaethau a Mynwentydd yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar holl agweddau o gyfraith claddedigaethau.

Mae'r canllaw yn amlinellu arfer da o ran y safon ddisgwyliedig ar gyfer rheoli risg cofebion ym mhob math o gladdfeydd. Mae'r canllaw yn amlinellu dull ar sail risg ar gyfer helpu awdurdodau i ddatblygu dull cymesur i reoli'r risg yn gysylltiedig gyda chofebion.

## CWMPAS

Ysgrifennwyd y weithdrefn hon yn benodol ar gyfer y fynwent sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Cymuned Llanrug

## AMCANION

Diben y weithdrefn hon yw ffurfioli'r systemau ar waith i reoli'r risg o gofebion ar gyfer cyflogeion, contractwyr, ac aelodau o'r cyhoedd y mae gan y cyngor ddyletswydd gofal cyffredinol amdanynt.

## CYFRIFOLDEBAU

Caiff cyfrifoldebau eu nodi mewn deddfwriaeth amrywiol ar gyfer claddfeydd, gan gynnwys Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 (LACO). Mae gan y cyngor hefyd gyfrifoldebau fel y nodir yn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA1974) a rheoliadau cysylltiedig fel y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 ac unrhyw Reoliadau dilynol.

## ADOLYGU

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn neu mewn cyfarfod o'r pwyllgor yn union ar ôl unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain yn ymwneud gyda chofeb.

## PARATOI CYN ARCHWILIO

### 1. DATGANIAD DULL

1.1 Bydd Cyngor Cymuned Llanrug neu ei gontractwr o'i ddewis yn paratoi Datganiad Dull cyn cychwyn unrhyw brofion diogelwch

### 2. ARCHWILWYR

2.1 Bydd y cyngor yn sicrhau mai dim ond personél awdurdodedig a chymwys fydd yn cynnal yr archwiliadau. Rhaid i bersonél o'r fath ddarllen y Polisi Diogelwch Cofebion hwn a dangos eu bod yn deall ac yn cadw at y Polisi drwy lofnodi'r Cytundeb Polisi (Atodiad 2).

2.2 Bydd holl archwiliadau cofebion yn cael eu cynnal gan ddau weithiwr o leiaf. Byddant yn gweithio fel tîm heblaw bod asesiad risg yn pennu ei fod yn ddiogel i un gweithiwr weithio ar ei ben ei hun. Bydd gweithwyr yn adnabod pan fydd angen cymorth arbenigol, er enghraifft pan fydd cofeb yn gymhleth neu'n fawr (dros 1.5m o uchder).

2.3 Bydd o leiaf un aelod o'r tîm archwilio yn unigolyn cymwys (gellir disgrifio unigolyn cymwys fel unigolyn sydd â chyfuniad o hyfforddiant, sgiliau, profiad a gwybodaeth a'u bod yn gallu defnyddio'r wybodaeth i ymgymryd gyda thasg yn ddiogel).

2.4 Bydd pob aelod o'r tîm archwilio yn gwisgo cyfarpar diogelu personol. Bydd hyn yn cynnwys siaced lachar, het galed ac esgidiau diogelu'r traed.

2.5 Bydd asesiad risg o ddiogelwch y rheini sy'n cynnal yr archwiliad yn cael ei gwblhau a'i gadw ar ffeil, ar y cyd gyda chytundeb wedi'i lofnodi y bydd gweithdrefn sydd wedi'i dewis gan y cyngor yn cael ei dilyn.

2.6 Os yw'r cyngor yn cyflogi contractwr cymwysedig addas i wneud yr archwiliadau, bydd copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y cwmni yn cael ei gadw gan y cyngor.

### 3. COFNODION

3.1. Bydd holl archwiliadau Cofebion yn cael eu cofnodi ar y ffurflen archwilio (Atodiad 1). Bydd cofnodion yn cael eu cadw: am gyfnod amhenodol. Mae'n dderbyniol cadw'r cofnodion yma yn electronig ar yr amod bod copi wrth gefn o'r wybodaeth yn cael ei wneud yn rheolaidd.

# PROSES ARCHWILIO

## 4. AMLDER ARCHWILIO

4.1. Bydd archwiliadau o bob lefel o risg yn cael ei gynnal unwaith bob pum mlynedd o leiaf.

## 5. PROSES ARCHWILIO

Bydd y broses archwilio yn cynnwys y canlynol:

5.1 Asesiad Risg
5.2 Cyfathrebu a Hysbysiad o Fwriad
5.3 Gwiriadau Gweledol
5.4 Prawf Corfforol
5.5 Dosbarthu'r Gofeb
5.6 Camau gweithredu ar gyfer Cofebion wedi'u dosbarthu

### 5.1 ASESIAD RISG

Bydd asesiad risg cychwynnol yn cael ei gynnal yn unol â'r dull Pum Cam at gynnal asesiadau risg fel y nodir gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y DU. Bydd hyn yn adnabod lle mae'r risg mwyaf i'r rheini sy'n ymweld gyda neu'n gweithio yn y fynwent. O ganlyniad, bydd posib blaenoriaethu cofebion sydd angen archwiliad ar unwaith.

Dyma'r eitemau fydd yn cael eu hystyried yn yr asesiad risg yma:

- Lleoliad llwybrau
- Amlder defnydd
- Hyd y defnydd
- Mathau o weithgarwch wrth ymyl

### 5.2 CYFATHREBU A HYSBYSIAD O FWRIAD

Mae'r cyngor yn ymwybodol bod profi diogelwch cofebion yn fater sensitif a bydd yn ceisio sicrhau bod cyfathrebu digonol a rheolaidd yn cael ei gynnal gyda'r cyhoedd.

O leiaf tri mis cyn archwilio unrhyw gofeb bydd y cyngor yn:

- <u>Sicrhau bod hysbysiadau yn cael eu harddangos ar dir y Fynwent.</u> Bydd y rhain yn cynnwys manylion am yr archwiliadau ar y gweill, cynghori'r cyhoedd am unrhyw beryglon o ran cofebion, rhoi manylion cyswllt ar gyfer y cyhoedd os oes ganddynt unrhyw ymholiadau neu bryderon a, lle mae angen, cyflawni unrhyw rwymedigaethau eraill o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol.

- Sicrhau bod hysbysiadau'r cyhoedd yn cael eu harddangos yn ardal Cyngor Cymuned Llanrug. Bydd y rhain yn rhoi manylion yr archwiliadau sydd ar y gweill ac yn rhoi manylion cyswllt ar gyfer y cyhoedd os oes ganddynt unrhyw ymholiadau neu bryderon. Bydd hysbysiadau yn ymddangos ar hysbysfyrddau, ar wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Bydd hysbysiad cyhoeddus yn y papur newydd lleol am bythefnos. Bydd rhestr o Gwestiynau Cyffredin (enghraifft yn Atodiad 7) yn cael eu postio ar y wefan.

  Bydd y Cyngor yn rhoi manylion y fethodoleg ar wefan y Cyngor.

## 5.3 GWIRIADAU GWELEDOL

Caiff gwiriad gweledol o'r gofeb ei gynnal yn y lle cyntaf i weld a oes unrhyw ddiffygion amlwg neu arwyddion o ansefydlogrwydd.

Bydd gweithwyr yn chwilio am:

- Bandin wedi'i ddifrodi neu erydu
- Symudiad rhannau o'r gofeb o'i leoliad gwreiddiol
- Cerrig ar ymyl y bedd wedi chwalu
- Sylfaeni ansefydlog neu wedi'u tanseilio
- Cofebion yn gwyro – yn benodol os oes tystiolaeth o symudiad diweddar
- Tystiolaeth o ddifrod strwythurol neu darfu (e.e. craciau)
- Presenoldeb llystyfiant, a all achosi i'r craciau ledu

Os oes diffyg neu os sylwir ar gofeb ansefydlog, bydd cofebion o'r fath yn destun prawf corfforol wedyn.

## 5.4 PRAWF CORFFOROL

Os nad yw cofeb yn pasio prawf gweledol, bydd yn destun gwiriad corfforol. Cyn unrhyw brawf corfforol, cynhelir asesiad diogelwch fel a ganlyn:

- Archwiliad gweledol cyffredinol o holl gofebion at ddibenion asesu arwyddion o ansefydlogrwydd ac fel rhan o'r asesiad risg cyffredinol. Bydd peiriannydd strwythurol yn archwilio cofebion dros 1500m o uchder.
- Prawf corfforol gyda llaw i brofi cofebion rhwng 625mm a 1500mm o uchder i asesu unrhyw symudiad ochrol yn dilyn yr archwiliad gweledol.
- Dylid asesu cofebion o dan 625mm o uchder i sefydlu a oes unrhyw fanteision i ddefnyddio pwysau i brofi'r gofeb.

Bydd y prawf corfforol ond yn digwydd pan nad oes unrhyw risg i unigolion eraill a bydd yn cael ei wneud gan ddefnyddio prawf llaw.

Dyma'r weithdrefn ar gyfer cynnal prawf llaw:

- Bydd yr archwilydd yn sefyll ar naill ochr i'r gofeb ac yn rhoi pwysau cadarn ond gofalus i sawl cyfeiriad gwahanol er mwyn penderfynu i ba raddau, os o gwbl, y mae'r garreg maen yn rhydd.
- Dylid cynyddu'r pwysau yn raddol nes cyrraedd pwysau o thua 25kg. Dylid canolbwyntio'r pwysau i un cyfeiriad, i ffwrdd o'r corff a dylid ei ailadrodd ar gefn y gofeb. Efallai bod angen profion llaw ar ochrau'r gofeb hefyd ar ddyluniadau penodol. Dylid canolbwyntio'r pwysau ar ben neu mor uchel ag sy'n bosib a chyfforddus i ymestyn.

5.5 DOSBARTHU COFEBION

Ar ôl profi, bydd yr archwilydd yn dosbarthu'r cofebion i un o dri chategori:

Categori 1 – sefydlog a ddim yn beryglus mewn unrhyw ffordd; i'w hail hasesu mewn pum mlynedd
Categori 2 – angen sylw ar unwaith i'w wneud yn ddiogel drwy sefydlogi gyda phostyn a bandin
Categori 3 - angen sylw ar unwaith i'w wneud yn ddiogel drwy osod y gofeb i orwedd ar lawr o fewn gofod y bedd

5.6 CAMAU GWEITHREDU AR GYFER COFEBION WEDI'U DOSBARTHU

Ar ôl ystyried canllaw a safonau'r diwydiant a'r opsiynau amrywiol ar gael, bydd y cyngor yn rhoi'r dull canlynol ar waith o ran y cofebion sydd wedi'u hasesu:

*Cofebion Categori 1*

Dim angen gweithredu. I'w hail hasesu mewn pum mlynedd.

*Cofebion Categori 2*

Bydd y camau canlynol yn cael eu cymryd ar unwaith:

- Bydd Hysbysiad Diogelwch (Atodiad 4) yn cael ei osod ar y gofeb i rybuddio bod y gofeb mewn cyflwr ansefydlog
- Bydd y gofeb yn cael ei sefydlogi gyda phostyn a bandin.
- Bydd deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu yn cael ei ganfod, a bydd llythyr Categori 2 (Atodiad 5) yn cael ei anfon o fewn saith diwrnod gwaith. Bydd y llythyr yn nodi bod angen atgyweirio'r gofeb mewn deuddeg wythnos.
- Bydd unrhyw waith atgyweirio sy'n cael ei wneud ar gost deiliad yr EROB a rhaid i saer maen coffa cofrestredig NAMM neu BRAMM wneud y gwaith yn unol â Safon Brydeinig 8415. Bydd deiliad yr EROB yn hysbysu'r cyngor pan fydd gwaith yn digwydd. Bydd archwilydd cofebion y cyngor yn archwilio'r gwaith gorffenedig.
- Os nad oes modd canfod deiliad yr EROB ac nid yw'n cysylltu gyda'r cyngor o fewn y cyfnod deuddeg wythnos, ac nad yw'r gwaith atgyweirio wedi'i drefnu ar gyfer y gofeb, bydd y postyn dros dro yn aros tan y dyddiad ail archwilio sydd wedi'i hysbysu, hyd at uchafswm o ddeunaw mis. Ar ddiwedd y cyfnod o ddeunaw mis, bydd y gofeb yn cael ei thrin fel cofeb Categori 3.

*Cofebion Categori 3*

Bydd y camau canlynol yn cael eu cymryd ar unwaith:

- Bydd Hysbysiad Diogelwch (Atodiad 4) yn cael ei osod ar y gofeb i rybuddio am y perygl ar unwaith.
- Bydd y gofeb yn cael ei osod i orwedd ar lawr yn ofalus o fewn gofod y bedd gyda'r arysgrifiad yn weladwy. Efallai y bydd cofebion mwy yn cael eu datgymalu i gael gwared ar y perygl.
- Bydd lluniau o'r gofeb yn cael eu cymryd ar adeg yr archwiliad ac ar ôl rhoi'r gofeb i orwedd ar lawr yng ngofod y bedd. Bydd lluniau yn cael eu cadw gyda chofnodion yr archwiliad.
- Bydd deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu yn cael ei adnabod, a bydd llythyr Categori 3 (Atodiad 6) yn cael ei anfon o fewn saith diwrnod gwaith. Bydd y llythyr yn nodi bod angen atgyweirio'r gofeb o fewn deuddeg wythnos.
- Bydd unrhyw waith atgyweirio sy'n cael ei wneud ar gost deiliad yr EROB a rhaid i saer maen coffa cofrestredig NAMM neu BRAMM wneud y gwaith yn unol â Safon Brydeinig 8415. Bydd saer maen coffa sydd wedi'i gontractio yn hysbysu'r cyngor pan fydd y gwaith yn digwydd.
- Os nad yw deiliad yr EROB yn hysbys ac nad yw'n cysylltu gyda'r cyngor o fewn y cyfnod deuddeg wythnos, bydd y gofeb yn parhau i orwedd ar lawr tan fydd deiliad yr EROB yn cysylltu â'r cyngor. Os oes angen, efallai y bydd angen trosglwyddo'r EROB fel bod posib symud ymlaen â'r gwaith atgyweirio.

Efallai y bydd angen cau rhan o'r fynwent i gyflogeion a'r cyhoedd. Yn yr achos hwn, bydd arwyddion a hysbysiadau gwybodaeth yn cael eu harddangos i rybuddio o'r peryglon.

# PROSES ÔL ARCHWILIO

## 6. GWAITH ATGYWEIRIO

6.1. Rhaid gwneud yr holl waith atgyweirio neu amnewid cofeb i Safon Brydeinig 8415.Bydd y saer maen coffa yn rhannu gwarant o gydymffurfiad gyda deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu, a rhaid rhoi copi o hwn i'r cyngor

**Atodiad 3**

# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## Nodwch fod rhaglen ddiogelwch parhaus Cyngor Cymuned Llanrug yn cynnwys archwilio pob cofeb yn ei fynwent

Wythnos yn Cychwyn ____________________

**Bydd unrhyw gofeb sydd heb fodloni gofynion iechyd a diogelwch yn cael hysbysiad a chynhaliaeth dros dro. Bydd manylion o'r camau sydd eu hangen i wneud y gofeb yn ddiogel ar gael ar hysbysfwrdd ac ar wefan y cyngor.**

Er eich diogelwch, a diogelwch holl ymwelwyr â'r fynwent, PEIDIWCH Â CHEISIO profi'r cofebion eich hun. Rhaid i saer maen coffa cymwysedig ymgymryd ag unrhyw waith atgyweirio.

PERCHENNOG Y GOFEB SY'N GYFRIFOL AM SICRHAU BOD Y GOFEB MEWN CYFLWR DIOGEL

Rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth a chydweithrediad yn sicrhau bod y fynwent hon yn le diogel i bawb ymweld â hi

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â chofeb, neu'r hysbysiad yma, plîs cysylltwch gyda Chyngor Cymuned Llanrug: clerc@llanrug.cymru

**ATODIAD 4**

# HYSBYSIAD DIOGELWCH PWYSIG

**Gwelwyd bod y gofeb hon yn anniogel yn ystod archwiliad a phrawf diogelwch. Mae angen sylw ar unwaith i atal ymwelwyr â'r fynwent rhag cael anaf**

Os chi yw deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu neu chi sy'n gyfrifol am y gofeb, cysylltwch gyda Chyngor Cymuned Llanrug ar fyrder am wybodaeth bellach, ac i gynghori ni o'ch bwriad i wneud y gofeb yn ddiogel.

Er eich diogelwch eich hun, a diogelwch holl ymwelwyr a'r fynwent, **PEIDIWCH Â CHEISIO** profi cofebion eich hun.

Rhaid i saer maen coffa cymwysedig, cofrestredig ymgymryd ag unrhyw waith atgyweirio cofebion

**PERCHENNOG Y GOFEB SY'N GYFRIFOL AM SICRHAU BOD Y GOFEB MEWN CYFLWR DIOGEL**

Rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth a chydweithrediad yn sicrhau bod y fynwent hon yn le diogel i bawb ymweld â hi

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â chofeb, plîs cysylltwch gyda Chyngor Cymuned Llanrug: clerc@llanrug.cymru

**ATODIAD 5**

**[DYDDIAD]**

**[ENW]**
**[CYFEIRIAD]**

**Annwyl [Enw]**

**Rhaglen Ddiogelwch Cofebion Cyngor Cymuned Llanrug**

**Gofod y Bedd:** [RHIF GOFOD Y BEDD]

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi ymgymryd â chyfres o archwiliadau o gofebion ym Mynwent Cyngor Cymuned Llanrug fel rhan o'i Raglen Ddiogelwch Cofebion. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i sicrhau diogelwch pawb sy'n ymweld, gweithio yn y fynwent ac nid bwriad y cyngor yw achosi unrhyw ofid.

Mae'r cyngor yn gyfrifol am ddiogelwch cyffredinol yn y fynwent, fodd bynnag, perchennog y gofeb sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gofeb yn cael ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr diogel.

Yn ystod archwiliad diweddar nodwyd bod y gofeb yng ngofod bedd [NODWCH RIF GOFOD Y BEDD YMA], yn ansefydlog ac angen gwaith atgyweirio ar unwaith. Mae cynhaliaeth dros dro a hysbysiad wedi'i osod ar y gofeb uchod er mwyn ei warchod a sicrhau diogelwch unrhyw un sy'n ymweld â'r rhan yma o'r fynwent.

Gofynnaf yn garedig i chi drefnu i saer maen coffa cofrestredig wneud y gwaith atgyweirio o fewn deuddeg wythnos i gael y llythyr hwn? Yn ogystal, plîs cysylltwch gyda Swyddfa'r Cyngor clerc@llanrug.cymru i roi gwybod i ni o'r camau yr ydych yn eu cymryd.

Nodwch: rhaid i holl atgyweiriadau gael eu gwneud yn unol â Safon Brydeinig 8415 a rhaid rhoi copi o'r warant cydymffurfiad i'r cyngor ar ôl cwblhau'r gwaith.

Rydym yn diolch i chi am eich help â'r mater yma. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Rhaglen Ddiogelwch Cofebion, neu'r llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r cyngor.

Yn gywir

**ATODIAD 6**

[DYDDIAD]

[CYFEIRIAD]

Annwyl [Enw]

**Rhaglen Ddiogelwch Cofebion ym Mynwent Cyngor Cymuned Llanrug**

**Gofod y Bedd:** [RHIF GOFOD Y BEDD]

Yn ddiweddar, mae’r Cyngor wedi ymgymryd â chyfres o archwiliadau cofebion ym Mynwent Llanrug fel rhan o’i Raglen Diogelwch Cofebion. Mae’r rhaglen wedi’i dylunio i sicrhau diogelwch pawb sy’n ymweld, gweithio yn y fynwent ac nid bwriad y cyngor yw achosi unrhyw ofid.

Mae’r cyngor yn gyfrifol am ddiogelwch cyffredinol yn y fynwent, fodd bynnag, perchennog y gofeb sy’n gyfrifol am sicrhau bod y gofeb yn cael ei chynnal a’i chadw mewn cyflwr diogel.

Yn ystod archwiliad diweddar nodwyd bod y gofeb yng ngofod bedd [NODWCH RIF GOFOD Y BEDD YMA], yn ansefydlog ac angen gwaith atgyweirio ar unwaith. Oherwydd y perygl ar unwaith gosodwyd hysbysiad ar y gofeb uchod ac mae wedi’i osod i orwedd ar lawr i’w ddiogelu a sicrhau diogelwch unrhyw un sy’n ymweld â’r rhan yma o’r fynwent.

Gofynnaf yn garedig i chi drefnu i saer maen coffa cofrestredig wneud y gwaith atgyweirio o fewn deuddeg wythnos i gael y llythyr hwn? Yn ogystal, plîs cysylltwch gyda Swyddfa’r Cyngor clerc@llanrug.cymru i roi gwybod i ni o’r camau yr ydych yn eu cymryd.

Nodwch: rhaid i holl atgyweiriadau gael eu gwneud yn unol â Safon Brydeinig 8415 a rhaid rhoi copi o’r warant cydymffurfiad i’r cyngor ar ôl cwblhau’r gwaith.

Rydym yn diolch i chi am eich help â’r mater yma. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Rhaglen Ddiogelwch Cofebion, neu’r llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â’r cyngor.

Yn gywir

**ATODIAD 7**

## DIOGELWCH COFEBION – Cwestiynau Cyffredin

### Pam Ein bod yn Cynnal Gwiriadau Diogelwch o Gofebion/Cerrig Maen?

Rhaid cynnal archwiliadau a phrofion diogelwch i sicrhau bod ein mynwent yn lle diogel i ymwelwyr a chyflogeion sy'n gweithio yno. Gwaetha'r modd, dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o ddigwyddiadau mewn mynwentydd ar hyd a lled y wlad lle mae Cofebion ansefydlog wedi cwympo ar bobl, gan gynnwys plant, sydd wedi arwain at farwolaethau ac anafiadau difrifol. Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n annog, rheoleiddio ac yn gorfodi diogelwch yn y gwaith yn y DU, ddiddordeb mewn Diogelwch Cofebion ac wedi rhannu hysbysiadau gydag Awdurdodau Lleol yn mynnu bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod Cofebion yn sefydlog. Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn gyfrifol am ddiogelwch pob ymwelydd i'r fynwent a'r rheini sy'n gweithio yno.

### Pwy sy'n gyfrifol am atgyweirio, cynnal a chadw fy nghofeb i?

Deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu neu berchennog y gofeb sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r gofeb a sicrhau ei bod mewn cyflwr diogel. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y fynwent yn ddiogel a bydd yn defnyddio dulliau rhesymol i sicrhau diogelwch y rheini sy'n gweithio neu'n ymweld â'r fynwent. Bydd hysbysiad o rybudd yn cael ei roi ar unrhyw gofeb os gwelwyd bod y gofeb mewn cyflwr anniogel. Cysylltir gyda deiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu neu'r perchennog i drefnu i wneud gwaith atgyweirio parhaol i'r gofeb gyda saer maen coffa cymwysedig, cofrestredig.

### Beth sy'n cael ei wneud yn ystod y prawf diogelwch ac archwilio?

Caiff gwiriad gweledol ei gynnal o bob cofeb i asesu ei chyflwr. Wedyn, cynhelir prawf gwthio (pwysau'n cael ei roi yn erbyn pen y gofeb) i wirio pa mor sefydlog ydyw. Caiff canlyniadau'r prawf eu cofnodi. Contractwyr cymwys sy'n cynnal y gwiriad diogelwch yma..

### Beth os ydi'r gofeb yn methu'r prawf?

Gan fod y fynwent yn le cyhoeddus, mae gan y cyngor ddyletswydd gofal i wneud yn siŵr bod cofeb ansefydlog yn cael ei gwneud yn ddiogel ar unwaith. Yn dibynnu ar lefel y perygl sy'n cael ei achosi gan gofebion, bydd naill ai yn cael ei wneud yn ddiogel dros dro, a rhybudd yn cael ei gyflwyno ar y gofeb, neu'n achos perygl ar unwaith, risg uchel, bydd y gofeb yn cael ei gosod i orwedd ar lawr y bedd a bydd rhybudd yn cael ei gyflwyno ar y gofeb. Yn y ddau achos, bydd y cyngor yn cysylltu gyda deiliaid yr Hawl Unigryw i Gladdu a neu berchennog y bedd i roi gwybod iddyn nhw.

### Pam nad oes neb wedi cysylltu gyda mi ynghylch y gynhaliaeth dros dro/bandin a/neu hysbysiad o rybudd sydd wedi'i roi ar fy nghofeb i ?

Blaenoriaeth y cyngor yw gwneud unrhyw gofeb ansefydlog yn ddiogel yn ystod yr archwiliad.

Rydym am i’r fynwent fod yn le diogel i ymweld a gweithio ynddi. Cyn gynted â phosib ar ôl archwiliad, byddwn yn ysgrifennu at ddeiliad yr Hawl Unigryw i Gladdu a/neu berchennog gan ddefnyddio’r cyfeiriad sydd gennym yn ein cofnodion. Nid ydym o bosib wedi cysylltu â chi oherwydd nad yw eich cyfeiriad presennol gennym ni. Plîs cysylltwch gyda ni clerc@llanrug.cymru i wirio neu ddiweddaru eich manylion cyswllt.

**A fydd profion yn cael eu gwneud ar gofebion yn y dyfodol?**

Bydd. Bydd y cyngor yn cynnal y profion yma o dro i dro, ar adegau rheolaidd a bydd pob cofeb yn cael ei harchwilio bob pum mlynedd, o leiaf.

.